# Amcangyfrif Cyllideb ar gyfer

# **2025 – 2026**

TERFYNOL. Cyflwynwyd 31 Hydref 2024

-

Comisiynydd

**Comisiynydd Plant Cymru**

**Amcangyfrif cyllideb i Lywodraeth Cymru.**

## Cyflwyniad

O dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd y corff hwn, mae'n ofynnol fy mod yn cyflwyno fy amcangyfrif terfynol erbyn diwedd Hydref. Mae fy nghyllideb wedi'i seilio ar nifer o ragdybiaethau gwaith a risgiau hysbys cysylltiedig ym mis Hydref 2024. Mae wedi cael ei ddiweddaru o'm hamcangyfrif cynnar ar sail ystyriaeth fanwl o'n cynllun gwaith a'r adnoddau sy'n angenrheidiol. Fel y manylir ymhellach isod, mae hynny'n cynnwys dau ddarn o waith sydd allan o'r cyffredin: amcan o gostau cyfreithiol fy mhresenoldeb fel Cyfranogwr Craidd yn Ymchwiliad Covid y Deyrnas Unedig; ac amcan o gostau defnyddio fy mhwerau statudol i gynnal ymchwiliad diogelu.

## Amcangyfrif Cyllideb

| | **Amcangyfrif 2025-26** (£) | **Dangosol 2026-27** (£) | **Dangosol 2027-28** (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 1,425,447 | 1,466,081 | 1,514,876 |
| Adeiladau | 59,500 | 62,475 | 62,475 |
| Costau swyddfa | 62,500 | 63,750 | 63,750 |
| Hyfforddiant a llesiant | 16,500 | 16,500 | 16,500 |
| Teithio a chynhaliaeth | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| Ffi archwilio allanol*** | 21,387 | 21,387 | 21,387 |
| Ffi archwilio mewnol | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Cyfathrebu* | 45,000 | 45,000 | 45,000 |
| TGCh** | 48,300 | 49,266 | 49,266 |
| Costau prosiectau**** | 76,000 | 76,000 | 76,000 |
| Costau cyfreithiol | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| Costau cyfreithiol Covid | 40,000 | - | - |
| Ymchwiliad Diogelu | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| Darpariaeth ar gyfer dadfeilio | 10,000 | - | - |
| Dibrisiad | 51,500 | 51,500 | 51,500 |
| **Cyfanswm Cyllideb Adnoddau** | 2,030,134 | 2,025,959 | 2,074,754 |
| **Arian Grant ar ffurf Cymorth** | 1,968,634 | 1,974,459 | 2,023,254 |

**Nodiadau**

*Cyfathrebu: mae hyn yn cynnwys yr holl wariant cysylltiedig â chydymffurfio â'n Safonau Cymraeg, sy'n cynnwys gwaith cyfieithu, cynhyrchu ein holl adnoddau hygyrch ar gyfer plant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, ein gwaith ymgysylltu statudol gyda miloedd o blant a phobl ifanc ar draws Cymru, cynnal ein gwefan, ac offer ar gyfer monitro effaith ein gwaith.

**TGCh: mae hyn yn cynnwys ein gwariant ar seiber-wytnwch a rheoli gwybodaeth. Er gwaethaf maint ein sefydliad, mae'r bygythiadau i'n rhwydwaith TG i'w cymharu â rhai mae cyrff llawer mwy yn eu hwynebu. Gan mai dyma un o'n risgiau corfforaethol pennaf, rydyn ni'n trin rheoli ein rhwydwaith a'r wybodaeth rydyn ni'n ei chadw yn eithriadol ddifrifol – mae hynny'n golygu bod rhaid i ni ddiogelu canran o'n cyllideb i dalu am fesurau rheoli critigol. Rydyn ni'n ceisio sicrwydd ynghylch ein mesurau rheoli bob blwyddyn, gan gynnwys trwy achrediad Cyber Essentials Plus, sy'n cael ei ariannu o'r llinell hon yn y gyllideb.

***Ffi archwilio allanol: mae hyn yn un o'r gofynion i'n swyddfa, ac mae ffioedd Archwilio Cymru yn dal i godi, sy'n golygu bod rhaid i'n cyllideb lai dalu am hynny.

****Prosiectau: mae hyn yn cynnwys ein gwariant ar gyflawni ymrwymiadau o'n strategaeth tair blynedd (sef gwaith dros ben ein swyddogaethau statudol). Yn 2025-26, bydd hynny'n cynnwys ymarferiad ymgynghori sylweddol gyda phlant a phobl ifanc i bennu blaenoriaethau ar gyfer ein strategaeth tair blynedd nesaf. Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch ein blaenoriaethau gwaith yn un o'r gofynion yn ein deddfwriaeth.

**Y cyd-destun – rhai ffeithiau**

1. **Sicrwydd a gafwyd:**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi adolygu fy nghyfrifon ar gyfer 2023-24 yn ddiweddar, ac wedi rhoi barn ddiamod i ni, heb unrhyw bwyntiau i ni eu gweithredu yn y llythyr rheoli.

Mae fy Archwilwyr Mewnol, TIAA, wedi darparu'r lefel uchaf posibl o sicrwydd ynghylch ein llywodraethiant a'n rheolaeth ariannol yn eu hadroddiadau diweddaraf.

2. **Cylch Cynllunio Strategol:**

Yn dilyn yr ymarferiad ymgynghori gyda mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion, mae eu barn a'u profiadau wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys ein cynllun strategol tair blynedd, a bydda i'n atebol i'r miloedd hynny o gyfranogwyr, ac i eraill, am gyflawni'n gobeithion yn llwyddiannus.

3. **Sefyllfa Ariannu:**

Rwy'n cael fy ariannu gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, ond rwy'n gweithredu'n annibynnol arnyn nhw, ac rwy'n atebol am y defnydd o'r adnoddau cyhoeddus sy'n cael eu darparu i mi. Fi hefyd

yw’r Comisiynydd sy’n derbyn y lefel isaf o ariannu, ar sail setliad cyllideb 2023-24.

Effaith Gorchymyn Penderfyniadau Cyllideb a Chyrff Dynodedig 2021 fu cyfyngu ar lefel y gweddill ariannol a gedwir y gallaf ei ddefnyddio’n annibynnol heb i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllideb adnoddau gyfatebol a, lle bo angen, arian parod. Amlygwyd y cyfyngiad hwn a’r risg yn ddiweddar yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd,‘Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru’, yn 2022-23.

4. **Taliadau i staff**:

O’r cychwyn cyntaf, mae’r swyddfa hon wedi seilio’i pholisi cyflogau ar eiddo Llywodraeth Cymru, gan wybod bod hynny wedi’i sefydlu trwy gyd-drafod gydag undebau llafur (rhywbeth nad ydym ni’n ei wneud ein hunain).

5. **Cyflawni dros blant a phobl ifanc:**

Mae’r sefydliad wedi cyflawni rôl hanfodol ers dros ugain mlynedd fel sefydliad annibynnol ym mywyd sifil Cymru. Ers y toriad diweddaraf i’n cyllid yn 2024-25 rydyn ni wedi bod yn cario dwy swydd wag ar lefel swyddog allweddol, a bydd parhad y sefyllfa honno’n effeithio ar ein gallu i gyflawni blwyddyn olaf fy nghynllun strategol tair blynedd presennol yn llwyddiannus. Mae’r amcangyfrif hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y swyddi gwag hyn wrth symud ymlaen. Er gwaethaf y sefyllfa hon, rydyn ni’n dal yn gwbl ymroddedig i gyflawni ein gobeithion ar gyfer plant, drwy waith ein tîm bychan ymroddedig a phrofiadol o staff.

**Rhagdybiaethau gwaith**

- Ni fyddwn yn sicr o’n gwariant ar brosiectau yn 2025-26 nes bod ein cylch cynllunio strategol mewnol, sy’n cychwyn yn yr hydref, wedi dod i ben, felly mae ein rhagolygon wedi’u hamcangyfrif ar sail gwariant ar brosiectau blaenorol;
- Byddwn ni’n parhau i adolygu ein llety (dim ond ym Mhort Talbot mae gennym ni ganolfan) a’n strwythur staffio, i sicrhau eu bod yn cynnig y gwerth gorau posib am y bunt gyhoeddus, ac i blant a phobl ifanc;
- Byddwn ni’n parhau i adolygu pob llinell o’r gyllideb yn fanwl bob mis er mwyn canfod arbedion cost posibl ac i sicrhau nad oes gwastraff;
- Bydd chwyddiant yn effeithio ar agweddau allweddol o’n gwariant, ac felly rydyn ni wedi dadansoddi llinellau unigol o’r gyllideb i adlewyrchu’r effaith a ragwelir ar anghenion gwariant i’r dyfodol;
- Byddwn ni’n parhau i gwrdd â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb, a gweithio drostyn nhw, ledled Cymru;

- Byddwn ni’n parhau i gynnig model gwaith hyblyg, hybrid i staff, fel bod modd i ni gyflogi staff o amrywiol leoliadau ledled Cymru;
- Bydd cynnydd o 3 y cant o leiaf mewn cyflogau o ganlyniad i’r dyfarniad cyflog, a gallai gwybodaeth a geir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod fod yn wahanol i’r setliad dyfarniad cyflog sy’n deillio o hynny;
- Nid yw newidiadau yn y dyfodol i Yswiriant Gwladol a/neu gyfraniadau pensiwn cyflogwr wedi cael eu cynnwys yn ein hamcangyfrif;
- Byddwn ni’n parhau i chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, lle mae modd diogelu ein hannibyniaeth, er lles hawliau dynol plant yng Nghymru. Mae hynny’n cynnwys ymgymryd ag ymarferiadau caffael ar y cyd i fwyafu’r gwerth am y bunt gyhoeddus;
- Mae angen parhaus am roi blaenoriaeth i ddull sefydliad cyfan o ymdrin â seiber-wytnwch;
- Byddwn ni’n sicrhau bod pob allbwn gennym ni fel sefydliad yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwyno gwasanaeth cyhoeddus, ac ar fywydau plant yng Nghymru.

**Risgiau hysbys cysylltiedig**

- Anallu i ymateb yn gyflym ac yn annibynnol i ddarnau newydd o waith, gan gynnwys unrhyw adolygiadau neu ymchwiliadau xyrff cyhoeddus, o ganlyniad i gronfeydd arian wrth gefn sydd wedi crebachu;
- Anallu i bennu’n gywir ddyfarniad cyflog terfynol cyfnod ariannol 2025-26 ac ymrwymo i’w roi ar waith oherwydd pwysau ariannol;
- Anallu i gymeradwyo cynlluniau gwaith oherwydd amserlenni cadarnhau dyraniadau cyllideb gan Lywodraeth Cymru;
- Anallu i gyflawni ein swyddogaethau statudol oherwydd dyraniad cyllideb annigonol;
- Anallu i gyflawni ein swyddogaethau statudol oherwydd gorfodaeth i newid ein strwythur staffio o ganlyniad i ddyraniad cyllideb annigonol.